

Hynt

Menter gan Gyngor Celfyddydau Cymru a reolir gan Creu Cymru mewn Partneriaeth â Diverse Cymru

Adroddiad Adborth Ymgysylltu



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Brandio	6
Cynllun Hynt	7
Hyfforddi a Datblygu	9
Gwefan Hynt	12
Cerdyn Hynt	15
Meini Prawf Cymhwysedd	19
Y Broses Gyflafareddu	22
Symud Ymlaen	24
Cysylltu â Ni	26
Atodiadau:	27
01: Fframwaith Cyflafareddu	
02: Adborth Ymgysylltu	

Cyflwyniad

Beth yw Hynt?

Ym mis Mawrth 2014, penodwyd Creu Cymru mewn partneriaeth â Diverse Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddarparu menter fynediad newydd ar draws y sectorau theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru. Ar ôl cyfnod o ymchwil a gynhaliwyd yn 2013 i hyfywra prosiect o'r fath, y fenter hon yw ymateb CCC i'r argymhellion a wnaethpwyd.

Mae'r cynllun wedi cael ei hysbysebu fel cynllun cerdyn cenedlaethol i ymwelwyr anabl. A dweud y gwir, mae'n ehangach o lawer na hynny. Y nod yw cynllun cerdyn cenedlaethol a weinyddir yn ganolog sy'n cynnwys proses gyflafareddu glir a reolir gan Diverse Cymru ac sy'n cael ei ategu gan raglen helaeth o hyfforddiant pwrpasol i theatrau a chanolfannau celfyddydau yn ogystal â gwefan wybodaeth i'r cyhoedd.

Mae celfyddydau a diwylliant yno i bawb. Ond nid yw mor hawdd â hynny bob amser. Os oes arnoch nam neu anabledd gennych, mae sawl rheswm pam y gall cael y gorau o brofiad mewn canolfan gelfyddydau neu theatr leol fod yn fater ychydig yn fwy cymhleth nag archebu tocynnau a dewis beth i'w wisgo'n unig.

Cynllun cenedlaethol yw Hynt sy'n gosod anghenion cynulleidfaoedd yn gadarn wrth ei graidd. Drwy ymgofrestru â'r cynllun, gall pob canolfan yng Nghymru ddod at ei gilydd i greu cysondeb yn yr hyn y maent yn ei gynnig i aelodau o'u cynulleidfaoedd sydd angen cefnogaeth gan gynorthwydd neu ofalwr er mwyn ymweld â nhw.

Bydd Hynt yn darparu cerdyn i unigolion sydd angen cymorth ychwanegol y gellir ei ddefnyddio ar draws yr holl ganolfannau cyfranogol yng Nghymru. Fel hyn, gallwch fod yn ffyddiog ynglŷn â beth y byddwch yn ei gael o'ch perthynas ag unrhyw ganolfan sy'n rhan o'r cynllun.

Yn ogystal â hyn, bydd Hynt yn darparu gwahanol fathau o wybodaeth i'ch helpu i wneud penderfyniadau a chynllunio'ch ymweliad â'r theatr gyda hyder. Bydd gwefan Hynt yn gweithredu fel hafan i'r holl wybodaeth am fynediad, gan ddarparu cyfleuster sy'n gyfredol ac yn hawdd ei ddefnyddio ac sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am berfformiadau a chanolfannau.

Cynllun sydd dan arweiniad cymheiriaid yw Hynt sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o, a gwybodaeth am, anghenion cynulleidfaoedd sydd ag anabledd neu nam. Mae'r cynllun yn ymwneud â chael gwared â'r rhwystrau sy'n atal y cynulleidfaoedd hynny rhag mwynhau popeth y gall y celfyddydau a diwylliant ei gynnig, gan agor gofodau diwylliannol i gynnig y cyfle i bobl i gael profiadau ystyrlon, cofiadwy ac ysbrydoledig.

Sesiynau Ymgysylltu

Ym mis Mehefin 2014, cynhalion ni 7 digwyddiad ymgysylltu ar draws Cymru. Bwriad y digwyddiadau hyn oedd amlinellu ein syniadau am sut y gallai'r cynllun weithio a thrafod cyfleoedd a heriau'r prosiect. Mae'n bwysig i ni mai cynllun dan arweiniad cymheiriaid yw Hynt sy'n ymateb yn gadarnhaol i adborth ac sy'n rhoi ystyriaeth i farn ein holl randdeiliaid. Roeddem am siarad â chynifer o randdeiliaid ag oedd yn bosibl fel y gallem wneud yn siŵr bod y cynllun hwn yn effeithiol a'i fod yn diwallu anghenion y cynulleidfaoedd, y theatrau a'r canolfannau celfyddydau. Mae'r sesiynau ymgysylltu wedi darparu cryn dipyn o wybodaeth i ni ac wedi ein helpu i ddeall yn well yr amrywiaeth eang o brofiadau a heriau rydym yn ymdrin â nhw. Rydym hefyd wedi elwa ar gwrdd â nifer mawr o sefydliadau ac unigolion sydd wedi bod yn hael wrth rannu eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u hadnoddau â ni er mwyn helpu i ddatblygu a chefnogi Hynt. Bydd y dull cydweithredol a chynhwysol hwn yn allweddol i lwyddiant y cynllun yn y dyfodol.

Estynnwyd gwahoddiad gennym i ystod eang o unigolion a sefydliadau i fynychu'r sesiynau, ac erbyn hyn, rydym wedi siarad â chyfanswm o dros 80 o bobl o amrywiaeth o gymunedau anabledd, sefydliadau cymorth, gofalwyr, theatrau a chanolfannau celfyddydau. Mae'r adborth o'r holl ddigwyddiadau hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, dim ond dechrau sgwrs barhaus yw hwn; gwyddom y bydd yn rhaid i ni ddal ati i addasu a datblygu. Mae'r adroddiad hwn yn anelu at amlinellu'r gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn gan agor ein syniadaeth a chynnig cyfle ar gyfer ymgynghori pellach.

Yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn dwyn at ei gilydd yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y sesiynau ymgysylltu, yr adborth gan gyfranogwyr ac ymatebion ac ystyriaethau tîm y prosiect. Mae'n manylu ar y twf a'r newid yn y cynllun o'r syniad gwreiddiol ym mis Ionawr 2014 drwodd i'r saith digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd gennym ar draws Cymru ym mis Mehefin a Gorffennaf. Mae pob pennod yn yr adroddiad hwn yn ymdrin ag agwedd wahanol ar y cynllun ac mae'r adroddiad yn dilyn yr un daith â'r cyflwyniad a roddwyd ym mhob un o'r digwyddiadau ymgysylltu. Mae'r sleidiau gwreiddiol yn gweithredu fel rhagarweiniad i bob adran, gyda'r naratif islaw'n ymdrin â'r deunydd a gyflwynwyd gennym ac yn ymgorffori'r adborth a'r ymatebion gan y rhai a fynychodd y sesiynau, yn ogystal â llawer o'r cwestiynau a'r materion a godwyd y byddwn yn parhau i'w hystyried wrth i ni ddod â'r cynllun ar-lein.

Er mwyn ymgysylltu â chynifer o randdeiliaid posibl y cynllun ag y bo modd, bydd y fersiwn hon o'r cynllun ar lein o 9 Medi 2014 tan 8 Hydref 2014 ac rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd am gyfrannu at fynd â'r cynllun rhagddo.

Am fwy o wybodaeth neu i anfon adborth i'w ymgorffori yn fersiwn derfynol yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni yn unrhyw un o'r cyfeiriadau e-bost isod.

Creu Cymru

Emma Evans, Rheolwr y Prosiect

emma@creucymru.com

Megan Merrett, Swyddog Gweinyddol y Prosiect

megan@creucymru.com

Diverse Cymru

Annie Duddridge, Swyddog Cynnwys y Gymuned

annie@diversecymru.org.uk

Thom Dicomidis, Gweinyddwr Cynnwys y Gymuned

thom.dicomidis@diversecymru.org.uk

Brandio

Yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu ym mis Mehefin, roeddem yn defnyddio'r enw Entri ar gyfer y cynllun mynediad cenedlaethol hwn. Penderfynon ni ar yr enw hwn ar ôl llawer o gnoi cil ac ymchwil. Roeddem eisiau enw nad oedd angen ei gyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Gair a allai gael ei ddeall yn hawdd yn y ddwy iaith ac a fyddai'n creu delwedd gadarnhaol a chroesawgar yn syth gan gynrychioli gwerthoedd hygyrchedd, tegwch a bod yn agored yr ydym am eu hennyn yn y cynllun hwn.

Roeddem o'r farn bod Entri'n ateb y diben hwn yn dda; roeddem ar ddeall bod y gair yn niwtral yn ieithyddol a heb fod yn air Cymraeg na Saesneg fel y cyfryw ond yn hytrach yn derm sy'n chwarae ar y gair *Entry*. Fodd bynnag, er bod yr enw wedi derbyn ymateb cadarnhaol yn gyffredinol, cawsom wybod ei fod, o dan rai amgylchiadau, wedi'i weld yn air Cymraeg prin ei ddefnydd sy'n golygu 'cofnod mewn dyddiadur' neu 'fynediad drwy ale neu fynedfa ochr'.

Rydym wedi sylweddoli y gellid gweld y cyfieithiad llythrennol hwn o'r gair Entri mewn ffordd negyddol a fyddai'n creu goblygiadau negyddol i'r cynllun sy'n hollol groes i'n bwriadau. Am y rheswm hwn, aethom yn ôl at ein brandio a chan barhau i ganolbwyntio ar enw sy'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n cael ei adnabod yn hawdd ac sy'n gynrychioladol o werthoedd craidd y cynllun, sef cynwysoldeb, hyder, ymgysylltiad, tryloywder a thegwch, rydym wedi cytuno ar yr enw 'Hynt'.

Cynllun Hynt

Cynllun mynediad cenedlaethol ac iddo dair agwedd yw Hynt i gwsmeriaid theatrau anabl:

- Menter hyfforddi a datblygu i theatrau a chanolfannau celfyddydau
- Gwefan ganolog i ddarparu gwybodaeth i gwsmeriaid am berfformiadau a chanolfannau
- Rhaglen cerdyn consesiynau

Gyda'i gilydd bydd y tair agwedd hyn yn golygu mai hwylusydd a chatalydd er newid yw Hynt.

Menter gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw Hynt a reolir gan Creu Cymru mewn partneriaeth â Diverse Cymru. Yn deillio o'r awydd i gael gwared â rhwystrau rhag ymgysylltu a chyfranogi, seilir ein cynllun ar fodel cymdeithasol anabled gan ymdrechu i fynd i'r afael ag agweddau negyddol a gwella ansawdd y gwasanaeth a'r profiad y mae cymunedau anabl yn eu derbyn yn ein theatrau a'n canolfannau celfyddydau.

Cam ymlaen yw Cynllun Hynt o'r cynlluniau presennol megis y cynllun mynediad y bu Diverse Cymru yn ei gynnal gyda'r New Theatre a Chanolfan Mileniwm Cymru dros y pedair blynedd diwethaf. Rydym wedi tynnu ar arferion gorau, profiad a gwybodaeth y cynllun yng Nghaerdydd ac eraill i greu cynllun sy'n gyson, yn deg ac o dan arweiniad cymheiriaid sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Bwriad Hynt yw galluogi pobl anabl sydd ar hyn o bryd yn wynebu amryw o heriau a rhwystrau rhag mwynhau a chyfranogi o'r celfyddydau gan ymateb i'r galw a'r awydd ar draws cymunedau yng Nghymru i greu ymagwedd unedig a safon ansawdd ar gyfer cynorthwyo cwsmeriaid anabl wrth gael mynediad i ddigwyddiadau celfyddydau a diwylliannol.

Mae'r prosiect yn anelu at:

- Creu polisi tocynnu cyson a theg ar draws theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru mewn cysylltiad â gofalwyr/cynorthwywyr personol.
- Hyrwyddo hygyrchedd yn ein holl theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru gan leihau'r rhwystrau rhag ymgysylltu a chyfranogi.
- Meithrin cysylltiadau rhwng theatrau a chanolfannau celfyddydau a'u cymunedau anabl lleol

- Datblygu sgiliau, arbenigedd a chapasiti yn sector y celfyddydau a chymunedau anabl i wneud y cynllun yn wirioneddol gydweithredol a chynaliadwy.

Rydym am fod yn onest am beth rydym yn ei deimlo y gallwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod bod nifer o feysydd lle y dylem edrych at ddatblygu'r cynllun i'r dyfodol a byddwn yn ystyried hyn unwaith i'r cynllun cychwynnol fod yn ei le.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cydweithio â sectorau eraill megis canolfannau hamdden, orielau ac amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth

- Datblygu'r cynllun yn gynllun dewis cwsmeriaid ehangach a allai fod o fudd i ystod ehangach o bobl sydd â namau

Hyfforddi a Datblygu

Menter hyfforddi a datblygu i theatrau a chanolfannau celfyddydau:

- Hyfforddiant wedi'i deilwra i bob canolfan gyfranogol sy'n edrych ar hygyrchedd ar draws y sefydliad.
- Cydweithio â Diverse Cymru, cwsmeriaid a sefydliadau arbenigol i ddarparu cymorth, sgiliau ac arbenigedd wrth osod meini prawf i'r cynllun.
- Creu cyfleoedd i feithrin cysylltiadau â chynulleidfaoedd newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn cydweithio â sefydliad sy'n bartner o'r enw *Include Arts* i ddatblygu ein rhaglen hyfforddi. Drwy gydol y digwyddiadau ymgysylltu, rydym wedi siarad am yr angen am raglen sydd wedi'i theilwra ac sy'n ymdrin ag anghenion penodol y theatrau a'r canolfannau celfyddydau cyfranogol. Roeddem am gydweithio â phartner oedd â phrofiad helaeth o weithio yn y maes hwn ac a allai ddod ag arbenigedd, gwybodaeth a phrofiad i'r prosiect. Codwyd nifer o gwestiynau gan gyfranogwyr yn y digwyddiadau ynghylch y themâu canlynol: cynnwys yr hyfforddiant, rhaeadru hyfforddiant drwy sefydliadau; a oedd ein hyfforddwr yn anabl ai peidio ac a oedd yr hyfforddiant yn seiliedig ar y model cymdeithasol ai peidio.

Rydym yn cydnabod y bydd rhai unigolion a sefydliadau'n siomedig nad sefydliad dan arweiniad anabledd yw'r partner o'n dewis, ac nad yw eu cartref yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn fod yr ymagwedd gywir gan *Include Arts* tuag at ymarfer cynhwysol. Fel sefydliad, mae *Include Arts* yn dod â phrofiad o weithio mewn theatrau a chanolfannau, yn fewnol yn ogystal â thrwy ymgynghori allanol. Mae *Include Arts* yn gweithio gydag a thros bobl anabl a'u teuluoedd yn ogystal â dod â gwerth ychwanegol o ran hyfforddiant, yn enwedig i ganolfannau. Un o'r materion a nodwyd gennym yn sector y celfyddydau oedd cael hyd i hyfforddwyr oedd â gwybodaeth ymarferol am y diwydiant; datblygir a darperir llawer o hyfforddiant cyfredol fel dysgeidiaeth generig gan y rheini sydd â dealltwriaeth dda o gydraddoldeb anabledd a hygyrchedd, ond sydd heb, o anghenraid, ymwneud yn uniongyrchol â sut i addasu arferion yn effeithiol ar gyfer theatrau a chanolfannau celfyddydau.

Bydd pob sesiwn hyfforddi'n cael ei llunio gyda mewnbwn uniongyrchol gan amrywiaeth o gwsmeriaid o fewn y sbectrwm namau cyfan. Bydd *Include Arts* yn creu ac yn cydweithio â grŵp cynghori o bobl anabl i lunio'r hyfforddiant. Bydd hyn yn gadael i *Include Arts* ddatblygu rhaglen hyfforddi sydd â dealltwriaeth

gynhwysfawr ac sy'n cynrychioli buddiannau'r holl gwsmeriaid hynny y mae'r cynllun yn bwriadu eu cyrraedd.

Rydym wedi pwysleisio'r angen i gynllunio'r hyfforddiant i ateb y diben a chydweithio â'r holl ganolfannau cyfranogol i ddarparu rhywbeth sy'n gweithio iddyn nhw. Fodd bynnag, themâu cyffredinol yr hyfforddiant fydd adnabod cyfleoedd allweddol i sefydlu diwylliant cynhwysol a gwneud newidiadau i wella mynediad a chynhwysiant. Gweithio ar ffyrdd o wella profiad cwsmeriaid yw ein prif nod gan ganolbwyntio ar 'Daith yr Ymwelydd' i gwsmeriaid anabl. Bwriad y sesiwn yw adnabod a gweithio tuag at gael gwared â'r rhwystrau presennol mewn sefydliadau rhag denu cynulleidfa amrywiol a chynhwysol. Mae anabledd cudd gan lawer o aelodau o'r gynulleidfa, neu nid ydynt yn gweld eu hunain yn anabl (ond byddent o hyd yn elwa ar staff sy'n ymwybodol o faterion anabledd a chynhwysol eu hagwedd), ac felly mae'r sesiwn hon yn berthnasol i bob adran o fewn sefydliad. Bydd y testunau i bob canolfan yn amrywio gan ddibynnu ar y gofynion, ond gellir disgwyl iddynt gynnwys: Cydraddoldeb Anabledd Sylfaenol, Cynghorion ar Fynediad Hawdd, Terminoleg, Gwasanaeth i Gwsmeriaid, Cyfathrebu, Marchnata (Rhwydweithiau a Hygyrchedd), Perfformiadau â Chymorth, Tocynnu a Pholisi Blaen Tŷ.

Bydd dysgu ar y cyd yn bwysig iawn wrth sicrhau y gellir rhaeadru sgiliau a gwybodaeth drwy'r sefydliad. Bydd pob canolfan yn derbyn pecyn hyfforddi addasadwy a fydd yn atgyfnerthu dysgu'r rheini a fynychodd y sesiwn ond hefyd yn gweithio fel dogfen hyfforddi ar wahân i'r rheini oedd yn methu bod yn bresennol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys ymarferion dilynol sy'n cynnig ffordd ymarferol o rannu dysgu ag aelodau staff eraill trwy gyfuno ymarferion gweledol, cinesthetig a chlywedol a thynnu sylw at adnoddau eraill megis pecyn cymorth cydraddoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n cael ei ddatblygu gan Diverse Cymru, a'r gyfres bresennol o archwiliadau mynediad a hyfforddiant a ddarperir gan y Ganolfan Amgylcheddau Hygyrch ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r hyfforddiant, ynghyd â'r pecyn hyfforddi a'r ymarferion dilynol, wedi cael ei strwythuro fel y bydd y rhai sy'n ei fynychu'n derbyn yr wybodaeth a'r offer angenrheidiol i rannu canfyddiadau'r sesiwn ag aelodau staff eraill. Bydd y deunyddiau'n gadael i unrhyw un sydd wedi mynychu'r sesiwn raeadru'r canfyddiadau'n effeithiol ac yn gywir er mwyn sicrhau y rhennir dysgu am yr arferion gorau ar draws y sefydliad.

Rydym am fedru mesur effaith y rhaglen hyfforddi hon a gwella profiadau cwsmeriaid mewn ffordd amlwg, felly drwyddi draw yn ystod y prosiect byddwn yn sefydlu dulliau gwerthuso i asesu effaith meysydd megis: Effaith Hyfforddi, Dylanwad Mewnol Ôl-hyfforddi, Meysydd Datblygiad/Rhagoriaeth a RENNIR. Gall y rhain gynnwys dulliau megis: ffurflenni adborth, tystiolaeth anecdotaidd ac adroddiadau gwerthuso. Bydd yr ymchwil i'r prosiect yn cynnwys arolwg a fydd yn cael ei gwblhau gan gynrychiolydd o bob canolfan sy'n cymryd rhan. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg hwn at ddibenion gwerthuso ar ffurf adroddiad byr.

Dim ond rhan o angen ehangach i feithrin arbenigedd a sgiliau yn y sector yw'r hyfforddiant a gynigir gan y rhaglen hon, ac rydym yn cydnabod bod ystod eang o sefydliadau ac unigolion sy'n datblygu prosiectau ac yn llunio ac yn darparu hyfforddiant gan weithio ar draws nifer o feysydd. Rydym am feithrin cysylltiadau i helpu i gefnogi'r gwaith hwn a lle bo'n bosibl rydym yn ymrwymedig i gydweithio â'n gilydd i draws-hyrwyddo, gan gael y gorau o fanteision y ddarpariaeth hen a newydd; bydd bob amser angen gloywi ac adfywio sgiliau a gwybodaeth yn y maes hwn.

Gwefan Hynt

Gwefan ganolog i ddarparu gwybodaeth i gwsmeriaid am berfformiadau a chanolfannau:

- Rhestrau canolog sy'n rhoi gwybodaeth am bob perfformiad hygyrch sy'n digwydd ar draws Cymru.
 - Canllawiau a gwybodaeth am fynediad mewn cysylltiad â'r holl theatrau a chanolfannau celfyddydau cyfranogol.
 - Cyfle i ymgofrestru ar gyfer diweddariadau a gwybodaeth ychwanegol.
 - Ffurflenni cais y gellir eu lawrlwytho ar gyfer cwsmeriaid a chanolfannau a gwybodaeth lawn am y cynllun.
-

Bydd y wefan ar gael i bob cwsmer a bydd yn berthnasol i ystod eang o unigolion ac nid yn unig y rheini sy'n gymwys ar gyfer y cynllun cerdyn. Rydym am greu canolbwynt ar gyfer gwybodaeth er mwyn ei gwneud yn haws i gwsmeriaid gael hyd i'r manylion sydd eu hangen arnynt.

Bydd adran rhestrau llawn a fydd yn darparu gwybodaeth am bob perfformiad hygyrch sy'n digwydd mewn theatrau a chanolfannau celfyddydau cyfranogol. Bydd hefyd ganllawiau mynediad i bob canolfan gan alluogi unigolion i gynllunio eu hymweladau ar sail nodweddion penodol pa bynnag theatr y maent yn ymweld ag e. O wrando ar bobl yn ein digwyddiadau ymgysylltu, gwyddom y gall bod â rhywfaint o wybodaeth fanwl am gynllun ein hadeiladau a lleoliad y cyfleusterau oddi mewn iddynt roi mwy o hyder i gwsmeriaid wrth fynychu canolfan. Roedd yn glir yn y sesiynau ymgysylltu y gallai sicrhau bod y math yma o wybodaeth ar gael mewn un lleoliad canolog ac mewn fformatiau hygyrch fod yn adnodd gwych. Roedd ymateb cadarnhaol iawn i'r elfen hon o'r prosiect.

Cafodd diffyg cysondeb o ran profiad cwsmeriaid ei godi yn aml hefyd yn y digwyddiadau ymgysylltu. Gwyddom fod llawer o heriau i unigolion sydd â namau, ac er ein bod yn deall yn burion nad yw Hynt yn gallu gwarantu cael gwared â'r holl rwystrau ffisegol y gallai cwsmeriaid eu hwynebu, rydym yn gallu gweithredu fel nod barcud. Drwy greu'r canllawiau mynediad hyn, gobeithiwn roi gwybodaeth i gwsmeriaid a theatrau a chanolfannau celfyddydau am rai o'r heriau a fydd efallai'n gofyn ystyriaeth, gofal a sylw pellach. Canolfannau sy'n ymrwymedig i newidiadau cymdeithasol ac agweddol yw'r theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n cymryd rhan yn y cynllun hwn a lle mae rhwystrau amgylcheddol yn parhau, bydd ansawdd y

gwasanaeth i gwsmeriaid yn cael ei gynllunio i sicrhau bod pob ymweliad mor gyfforddus ag sy'n bosibl.

Mae cynllun y wefan yn anhygoel o bwysig i'n cwsmeriaid ac yn seiliedig ar ganllawiau arferion gorau gan Diverse Cymru a phrofion defnyddwyr gan nifer o sefydliadau anabled a mynediad. Gwyddom fod angen i ni sicrhau ei bod yn hydrin ac yn hawdd ei defnyddio a bydd yn dangos yn gydlynol a heb fod elfennau ar goll i'r rheini sy'n defnyddio dyfeisiadau tabled a ffonau call i bori'r wefan (fel y rheini a gynlluniwyd mewn Flash na fyddai'n ymddangos efallai ar ddyfeisiadau iOS).

Rydym hefyd yn gwybod y bydd angen i ni greu gwefan sydd bob amser yn gyfredol er mwyn iddi fod yn berthnasol ac yn werth chweil. Am y rheswm hwnnw, lle bo'n bosibl, byddwn yn defnyddio atebion technolegol i lanlwytho gwybodaeth yn awtomatig o ganolfannau cyfranogol trwy RSS. Fel hyn, bydd yr wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar wefan Hynt heb osod baich gweinyddol ychwanegol ar y theatrau cyfranogol.

Y wefan hefyd fydd y prif bwynt dosbarthu ar gyfer y ffurflenni cais am y cynllun cerdyn consesiynau. Byddwn yn creu ffurflen gais y gellir ei llenwi ar y sgrin neu'i hallbrintio a'i llenwi â llaw. Gellir dychwelyd y ffurflen naill ai drwy e-bost neu drwy'r post ynghyd ag unrhyw ddogfennau wrth gefn. Byddwn yn sicrhau bod y ffurflen yn hygyrch a'i bod yn addas ar gyfer ystod mor eang o ddarllenwyr sgrin a chymhorthion hygyrchedd eraill ag sy'n bosibl. Codwyd mater mynediad i dechnoleg ddigidol mewn ambell un o'r digwyddiadau ymgysylltu ac rydym wedi bod yn glir drwyddi draw y bydd ffyrdd eraill o gael ffurflen gais ar gyfer y cynllun, trwy'ch theatr leol neu drwy ffonio'r tîm ceisiadau canolog a gofyn iddynt bostio ffurflen atoch. Rydym yn cydnabod nad oes PC ac argraffydd ar gael i bawb ond gwyddom hefyd fod hyn yn newid gyda'r rhaglen Cynhwysiant Digidol ac yn cydnabod i lawer o unigolion sydd â namau, mae technoleg ddigidol yn ffordd fwy hygyrch o dderbyn gwybodaeth.

Bydd y wefan hefyd yn cynnal dogfen arweiniol gyda Chwestiynau Cyffredin sy'n amlinellu'r broses o wneud cais ac a fydd yn helpu wrth gwblhau'r ffurflen gais. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y ddogfen hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd wrth i gwestiynau godi neu os bydd angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael fel y gallwn wella ein gwasanaeth yn barhaus. Hefyd bydd rhif ffôn arbennig a minicom gyda staff hyfforddedig ar gael a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r broses o wneud cais.

Bydd y wefan hefyd yn ffynhonnell wybodaeth allweddol i theatrau a chanolfannau celfyddydau gan ein helpu i adnabod cyfleoedd i ddatblygu cynulleidfaoedd a meysydd lle gallwn wella ein gwasanaethau i gwsmeriaid a'n dulliau cyfathrebu. Bydd canolfannau cyfranogol hefyd yn gallu cyrchu dadansoddiadau ac ystadegau manwl ynglŷn â'r wefan: yn ogystal â monitro nifer yr ymwelwyr â thudalennau a rhestrau eu canolfannau unigol y gellir eu diweddarau â llaw a thrwy borthiant RSS

arbennig, byddant yn gallu gweld pa mor hir mae defnyddwyr yn pori'r wefan, pa dermau chwilio sy'n creu traffig ac adnabod gwefannau eraill sy'n cysylltu â thudalen y ganolfan. Bydd yr holl wybodaeth yma'n ein helpu i gydweithio â'r theatrau a'r canolfannau celfyddydau i ddeall cynulleidfaoedd yn well a pharhau i ddatblygu'r arferion gorau o ran cyfathrebu â chwsmeriaid. Bydd hefyd yn adnodd gwerthfawr ar gyfer gwaith datblygu cynulleidfaoedd a dargedir yn y dyfodol.

Cerdyn Hynt

Rhaglen cerdyn consesiynau:

- Cysylltodd Creu Cymru â Diverse Cymru ynghylch creu partneriaeth o gwmpas yr agwedd hon ar y cynllun oherwydd ein bod eisoes yn rhedeg prosiect tebyg yng Nghaerdydd gyda'r New Theatre a Chanolfan Mileniwm Cymru.
- Bu'r ddau sefydliad yn cydweithio i fapio'r ffordd orau o gyflwyno'r cynllun yn genedlaethol a'r nodau hynny a fyddai'n ganolog i'r ethos dan arweiniad noddwyr sydd gan Gerdyn Hynt.

Gweithio dros gwsmeriaid a chanolfannau:

- Mae'r cardiau am ddim i geisio amdanynt ac i'w defnyddio.
- Mae'r cynllun hwn yn genedlaethol a bydd cymhwysedd a dewisiadau deiliad cerdyn eisoes wedi'u cofrestru'n awtomatig gan y canolfannau sydd wedi ymuno.
- Byddai'r cynllun yn darparu cysondeb ac yn hwyluso'r profiad i gwsmeriaid anabl a'u gofalwyr wrth brynu tocynnau a mynychu perfformiadau ar draws Cymru.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o gynlluniau mynediad eisoes ar gael sydd wedi'u datblygu gan theatrau a chanolfannau celfyddydau ac awdurdodau lleol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb wedi'i nodi'n rhwystr i gwsmeriaid a dyma'n bennaf beth y mae ein cynllun yn anelu at ei gywiro. Fel rhan o ddatblygu'r cynllun cenedlaethol hwn, mi wnaethon ni dynnu ar yr arferion da presennol gan elwa ar beth wmbredd o brofiad ac arbenigedd. Teimlwn ein bod wedi creu cynllun sy'n gam ymlaen i gwsmeriaid ac iddo set o feini prawf clir, teg a thryloyw ynghyd â phroses apelio gyson, empathig ac arbenigol, ochr yn ochr â'r hyfforddiant, cymorth a'r seilwaith digidol y bydd y cynllun hwn yn eu creu.

Fel maen clo i'r cynllun, mae rhaglen y cerdyn consesiynau wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw'r rheini sydd angen cefnogaeth a chymorth gofalwr neu gydymaith yn wynebu rhwystr ariannol drwy orfod prynu tocyn ychwanegol er mwyn gallu mynychu perfformiadau. Mae canolfannau eisoes o dan rwymedigaeth gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol i bobl anabl, i drefnu consesiwn i ofalwyr ac i'w arfer ar draws pob perfformiad gan gynnwys sioeau a logir yn allanol ac mae'r cynllun hwn yn anelu at gynnig cysondeb ar draws canolfannau cyfranogol.

Roedd rhai theatrau a chanolfannau celfyddydau eisoes yn cynnig cynllun consesiynau hael iawn, ond credwn y bydd cynllun mwy unffurf sy'n blaenoriaethu'r rheini sydd â'r angen mwyaf yn annog cwsmeriaid sydd â phroblemau mynediad i ymgysylltu'n fwy â digwyddiadau artistig a diwylliannol ar draws Cymru. Bydd Hynt yn cael gwared â'r ansicrwydd a'r cymhlethdod a achosir gan amrywiaeth ehangach o gynlluniau llai sydd heb fod mor gydlynol drwy greu system unigol, syml a chanolog.

Cafwyd llawer o drafodaeth yn y digwyddiadau ymgysylltu am y posibilrwydd o gynnal cynlluniau lleol ochr yn ochr â'r cynllun cenedlaethol neu am y berthynas unigryw sydd gan rai theatrau a chanolfannau celfyddydau â'u cwsmeriaid. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig cydnabod y bydd angen i ni gydweithio'n agos â'r theatrau a'u cwsmeriaid i wneud unrhyw bontio â'r cynllun newydd hwn mor hawdd, syml a di-boen â phosibl ac i gyfleu'n glir y rhesymau y tu ôl i'r newid. Mae Hynt yn anelu at ddarparu eglurder yn hytrach na bod yn awtocratig ac yn ymateb i ac yn ymdrin ag angen go iawn. Mae'r cynllun yn ymwneud â chydaddoli hygyrchedd yn hytrach na'i gwneud yn rhatach i bobl anabl fynd i'r theatr ac mae'n bwysig nodi hefyd ein bod yn canolbwyntio ar y consesiwn i ofalwyr/cynorthwyyr personol yn unig a bydd pob consesiwn arall, gan gynnwys unrhyw ostyngiadau ar gyfer tocynnau cwsmeriaid anabl yn parhau i fod yn ôl disgrisiwn y chanolfannau.

Un o nodau craidd y cynllun yw creu cysondeb a hwyluso profiad cwsmeriaid anabl sydd angen cymorth ychwanegol i gael mynediad i'r theatr. Er mwyn gwneud hyn, rhaid bod cerdyn y cwsmer yn drosglwyddadwy o'r naill ganolfan i'r llall. Er mwyn i ni hwyluso hyn, bydd y system geisiadau ganolog yn creu cronfa ddata o ddeiliaid cardiau, pob un yn cael ei adnabod drwy'r rhifau cyfeirio unigryw ar ei gerdyn. Bydd yr wybodaeth hon ar gael i ganolfannau i'w hintegreiddio yn systemau eu swyddfeydd tocynnau lleol. Rydym yn deall bod amrywiaeth eang o systemau swyddfeydd tocynnau ar draws Cymru a byddwn yn gweithio'n agos â chanolfannau i ymgymryd â phrofion gan rai defnyddwyr cyn lansio er mwyn llyfnhau unrhyw anawsterau. Byddwn hefyd yn darparu cefnogaeth ychwanegol lle gallwn ni er mwyn symleiddio unrhyw systemau.

Rydym hefyd yn deall mai mater sensitif a chymhleth yw rhannu data. Roeddem yn glir iawn yn ein holl sesiynau ymgysylltu ein bod yn cymryd diogelu data wir o ddifri ac rydym am wneud yn siŵr bod ein holl systemau a phrosesau'n dryloyw a bod cwsmeriaid yn deall y ffordd yr ymdrinnir â data. Bydd angen i bob deiliad cerdyn gytuno i rannu ei wybodaeth gyswllt ar draws y rhwydwaith er mwyn i'r cynllun cenedlaethol weithio. Pwysleisir hyn yn glir wrth i'r cwsmer wneud cais. Ni fydd gwybodaeth ychwanegol am ddewisiadau cwsmeriaid ond yn cael ei rhannu lle maent yn rhoi eu caniatâd.

Ystyriwyd dau brif fecanwaith ar gyfer rhannu data ar ddechrau'r prosiect hwn: cadw gwybodaeth mewn porth 'cwmwl' neu weithredu cronfa ddata XML sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd ac sy'n hygyrch trwy fewngofnodi diogel. Mae'n bwysig ein

bod yn gweithredu system sy'n cydweddu i'r amrywiaeth eang o systemau a phrosesau swyddfeydd tocynnau sy'n cael eu defnyddio ar draws y sector. Mae hefyd yn bwysig i ni gael system sy'n helpu i hwyluso'r math o waith datblygu cynulleidfaoedd rydym yn gobeithio ei weld o ganlyniad i'r cynllun hwn. Gyda'r pethau hyn mewn cof, rydym yn bwriadu adeiladu cronfa ddata xml unigryw gan fod y system hon yn galluogi rheolaeth glir gennym dros y data sy'n cael eu rhannu ar hyd y rhwydwaith ac i ni drosglwyddo'r data'n hawdd i systemau swyddfeydd tocynnau unigol er mwyn hwyluso gwell cyfathrebu ag aelodau cynulleidfaoedd.

Bydd Hynt yn creu cynllun cenedlaethol cyson unigol i gymryd lle'r cynlluniau lleol presennol. Mae yna rai meysydd, beth bynnag, lle mae hyn wedi achosi rhai problemau, gyda chwestiynau'n cael eu codi yn y digwyddiadau ymgysylltu ynglŷn â chynlluniau a fyddai'n gwrthdaro'n uniongyrchol â Hynt.

Er enghraifft, mae cyfleusterau sinema gan lawer o theatrau a chanolfannau celfyddydau ac ar hyn o bryd maent yn derbyn cerdyn y CEA. Cynllun optio i mewn yw cerdyn y CEA ac mae sinemâu'n cael aros yn aelodau o'r CEA heb orfod derbyn y cerdyn hefyd. Y broblem wrth gynnal y ddau gynllun gyda'i gilydd mewn un ganolfan yw ei bod yn creu anghysonderau yn y polisi prisio tocynnau oherwydd bod gan gynllun cerdyn y CEA feini prawf cymhwysedd gwahanol i'r cynllun cenedlaethol. Felly, byddai rhedeg y ddau gynllun ar y cyd yn creu'r union anghysondeb y mae ein cynllun yn ceisio ei ddileu.

Rydym yn disgwyl y byddai'r cynllun cenedlaethol newydd hwn yn disodli cerdyn y CEA yn y theatrau a'r canolfannau celfyddydau sy'n ymuno. Y fantais yw nad oes raid i gwsmeriaid dalu i fod yn rhan o Hynt, ond mae'n rhaid iddynt dalu ffi flynyddol i fod yn rhan o gynllun y CEA. Ceir hefyd fanteision ychwanegol i gwsmeriaid a chanolfannau cyfranogol sy'n cynnwys hyfforddiant, mynediad i adnoddau a gwefan wybodaeth ganolog. Rydym yn teimlo felly y byddem am ofyn i ganolfannau sy'n optio i mewn i'r cynllun cenedlaethol ymadael â chynllun cerdyn y CEA. Ar yr un pryd, rydym yn deall y bydd hyn yn anodd iawn i rai canolfannau lle efallai y bydd peidio â bod yn rhan o gynllun y CEA yn cael ei ystyried yn andwyol i'r busnes, er enghraifft, lle gallai gollwng cerdyn y CEA eu hatal rhag cystadlu â chadwyni sinema cenedlaethol.

Cynlluniau awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd yn cyfuno diwylliant a hamdden fu'r ail faes lle roedd angen i ni gnoi cil. Mae ein ffocws ar gyfer y cynllun cenedlaethol wedi bod ar theatrau a chanolfannau celfyddydau; fodd bynnag, gallwn weld yn glir fanteision ehangu'r cynllun i gwmpasu cyfleusterau hamdden, er enghraifft y cynllun PlusOne presennol yn Abertawe. Yr her i ni yw bod mynychu cyfleuster hamdden yn brofiad gwahanol iawn i fynychu theatr a gallai, o bosib, ofyn lefelau cymorth gwahanol gan olygu ei bod yn anodd diffinio meini prawf cymhwysedd sy'n ateb y diben ar draws sector y theatrau a chanolfannau celfyddydau a'r sector hamdden. Fel a soniwyd ar ddechrau'r ddogfen hon, ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar ein briff i weithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau. Rydym

yn cydnabod y gall hyn olygu nad yw rhai canolfannau diwylliannol allweddol yn medru ymuno â Hynt oherwydd na fyddent am beidio â bod yn rhan o gynllun sydd eisoes ar gael gan yr awdurdod lleol. Cydnabyddwn mai gwendid yn ein hymagwedd bresennol yw hwn a gobeithiwn gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i gael hyd i ateb yn y dyfodol.

Mae'r angen presennol i theatrau a chanolfannau celfyddydau fod yn gyson yn eu hymagwedd tuag at wneud addasiadau rhesymol hefyd wedi'i brofi'n ddiweddar mewn dyfarniad yn yr Uchel Lys yn erbyn Theatr y Barbican yng Nghaerefrog. Dangosodd trafodaethau yn y digwyddiadau ymgysylltu sut y gallai cynllun fel hwn helpu theatrau a chanolfannau celfyddydau i rannu gwybodaeth ac arbenigedd yn y maes hwn, er enghraifft, wrth gadw'n gyfredol â newidiadau neu ddyfarniadau cyfreithiol fel hwn. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i ni i drafod mantais gweithio ar y cyd i drafod telerau â chynhyrchwyr annibynnol neu fasnachol neu logwyr allanol. Dyma faes lle mae'r gallu gan theatrau a chanolfannau celfyddydau i sicrhau newid ehangach yn y sector drwy godi ymwybyddiaeth cynhyrchwyr annibynnol a masnachol o faterion sy'n ymwneud â mynediad. Ein gobaith yw, drwy ddod ynghyd o dan gynllun cenedlaethol, y bydd gan theatrau a chanolfannau celfyddydau fwy o ddylanwad canolog a byddant mewn sefyllfa drafod gryfach er mwyn sicrhau bod y cynhyrchwyr hyn hefyd yn derbyn yr angen i wneud addasiadau rhesymol ac yn ystyried hyn wrth gadarnhau polisïau tocynnu gyda'r canolfannau.

Rydym yn cydnabod bod yna berygl i theatrau a chanolfannau celfyddydau, os na fydd cynhyrchwyr masnachol ac annibynnol yn cytuno i gynnig y consesiynau a fynnis gan ein cynllun, bydd theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n cymryd rhan yn cael gorfod cario'r baich ariannol. Mae hyn o bwys i theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n wynebu pwysau ariannol ym mhob cwr o'u gweithrediadau ac sy'n ddibynnol ar yr incwm o'r math yma o ddigwyddiadau. Ar ôl siarad â'r canolfannau mewn nifer o ddigwyddiadau, rydym wedi awgrymu bod Hynt yn cynnal trafodaethau â nifer o'r prif gynhyrchwyr sydd ar hyn o bryd yn dod â'u cynyrchiadau i Gymru gan weithio tuag at gyd-ddealltwriaeth a chefnogaeth i'r cynllun i helpu i leddfu rhai o'r peryglon i theatrau a chanolfannau celfyddydau cyfranogol.

Meini Prawf Cymhwysedd

Yn dilyn llawer o drafodaeth ynglŷn â'r hyn fyddai'n rhesymol, yn deg ac yn ymarferol, adnabuwyd Elfen Ofal Cyfradd Uchaf o'r Lwfans Byw i'r Anabl fel y cymhwysedd sylfaenol.

Yna, cafodd budd-daliadau anabledd eraill eu hymgorffori fel meini prawf.

- Elfen Bywyd Beunyddiol Fwy o'r Taliad Annibyniaeth Bersonol
- Cyfradd Uchaf y Lwfans Gweini
- Tystysgrif o Nam ar y Golwg
- Pensiwn Anabledd Rhyfel
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

Byddai'r rheini yr aseswyd bod angen yr Elfen Ofal ar y Gyfradd Uchaf arnynt yn derbyn y gostyngiad llawn, gyda gostyngiad 30% i'r rheini sy'n derbyn y gyfradd ganol a dim gostyngiad i'r rheini ar y gyfradd isaf.

Gall pobl anabl nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf cymhwysedd wneud cais i broses gyflafareddu a fydd yn edrych ar eu hamgylchiadau unigol.

Trafodwyd y meini prawf uchod, a seiliwyd ar y model yn y New Theatre, Caerdydd a Chanolfan Mileniwm Cymru, yn yr holl ddigwyddiadau ymgysylltu. Rydym am sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd ar gyfer ein cynllun terfynol mor briodol a theg ag y bo modd. Fel rydym wedi'i ddweud o'r blaen, mae'r cynllun hwn yn blaenoriaethu'r unigolion hynny sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn mynychu perfformiad mewn theatr neu ganolfan gelfyddydau. Rydym yn sylweddoli nad yw set gynhwysfawr o feini prawf yn ddichonadwy nac yn hylaw – set yr un fath i'r rhan fwyaf yw hi ac nid i bawb, ond mae'n bwysig bod y meini prawf yn wrthrychol ac yn adlewyrchu angen dilys ac asesedig y rheini y mae'r cynllun wedi'i fwriadu ar eu cyfer.

Mae'r cynllun ar gyfer namau ar draws y sbectrwm cyfan ac, er mai bwriad y meini prawf gwreiddiol oedd bod yn gynhwysol ac nid yn gyfyngol, rydym yn sylweddoli eu bod yn hepgor rhai grwpiau pwysig ar hyn o bryd gan gynnwys: pobl fyddar, sydd wedi colli eu clyw ac sy'n drwm eu clyw; y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl;

anableddau dysgu a chyflyrau sy'n gysylltiedig â henaint fel dementia neu'r rheini sydd wedi cael niwed i'r ymennydd. Hefyd, nid oedd yn cynnwys y rheini a fyddai'n gymwys ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol ond sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol yn hytrach na Thaliadau Uniongyrchol.

Gan ystyried hyn oll ac yn dysgu o'r peth wmbredd o arbenigedd a oedd yn bresennol drwy gydol ein digwyddiadau ymgysylltu, rydym wedi ail-lunio'r meini prawf cymhwysedd fel a ganlyn:

Elfen Bywyd Beunyddiol Fwy o'r Taliad Annibyniaeth Bersonol
Elfen Ofal Cyfradd Uchaf o'r Lwfans Byw i'r Anabl
Lwfans Gweini ar y Gyfradd Uchaf
Tystysgrif o Nam ar y Golwg
Pensiwn Anabledd Rhyfel
Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
Taliadau Uniongyrchol
Pecyn Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol
Namau Dwbl ar y Synhwyrâu
Pecyn Gofal Iechyd Parhaus

Bydd unrhyw unigolyn sy'n derbyn y budd-daliadau hyn yn gymwys yn awtomatig ar gyfer y cynllun cerdyn. Ar ôl gwneud cais llwyddiannus, bydd cardiau'n ddilys am 3 blynedd cyn bod rhaid eu hadnewyddu a byddant yn gallu dal manylion dewisiadau cwsmeriaid, megis man parcio i'r anabl, er y caiff deiliad y cerdyn ddewis cyfyngu ar unrhyw wybodaeth a roddir heblaw ei enw, rhai manylion cyfeiriad a'i gymhwysedd ar gyfer tocyn consesiynol.

Y consesiwn ar gael fydd tocyn gostyngol llawn i gynorthwyydd personol neu ofalwr deiliad y tocyn. O'r blaen, roeddem wedi rhagweld gostyngiad dwy haen lle y byddai unigolion sy'n derbyn budd-daliadau ar y gyfradd uchaf yn derbyn gostyngiad llawn a'r rheini ar y gyfradd ganol yn derbyn 30%. Er bod y dull dwy lefel hwn yn cydnabod bod angen mwy o gymorth ar rai pobl nag eraill, fe'n harweiniwyd gan adborth a thrafodaeth yn y digwyddiadau ymgysylltu at ei ailystyried ac at greu gostyngiad llawn sengl ar gyfradd safonol. Roedd yn glir o'r adborth o'r digwyddiadau ymgysylltu fod pobl yn cytuno naill ai bod angen cymorth ar unigolion neu ddim, ac os oes angen cymorth wedyn ni ddylent fod dan anfantais yn ariannol o'r herwydd.

Cafwyd trafodaethau helaeth hefyd am gydweithio â grwpiau o fewn y cynllun hwn yn sawl un o'n digwyddiadau. Bydd grwpiau'n ymweld â theatrau a chanolfannau celfyddydau'n rheolaidd ac mae gan rai berthynas dros amser â sefydliadau arbennig. Er y bydd yr un sefydliad hwyrach yn dod â grŵp yn rheolaidd i weld perfformiadau, gall cyfansoddiad ac ystod y namau o fewn y grŵp hwn amrywio'n sylweddol o'r naill ymweliad i'r llall. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i sefydliadau wneud cais bob amser roeddent am ddod â grŵp gwahanol. Roedd hon i'w gweld yn ffordd orfiwrocraidd o ddelio â'r sefyllfa hon a thrwy gydweithio â chyfranogwyr

mewn digwyddiadau ymgysylltu, cawsom hyd i ateb gwahanol y credwn iddo fod yn fwy addas ac ymarferol.

Yn y bôn, bydd grwpiau'n aros y tu allan i'r cynllun – caiff unigolion ddal eu cardiau eu hunain i'w defnyddio wrth ymweld yn annibynnol neu gyda theulu a ffrindiau ond gadewir tocynnu i grwpiau i ddisgresiwn y canolfannau. Bydd Hynt yn darparu cymorth ac arbenigedd os bydd angen a hefyd canllawiau ynglŷn â'r arferion gorau i theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n egluro'r broses asesu risg ar gyfer grwpiau a phenderfynu ar y cymarebau gofal angenrheidiol. Ac os oes unrhyw ansicrwydd, bydd theatrau a chanolfannau celfyddydau cyfranogol yn gallu galw ar gyflafareddwyr rhanbarthol am gymorth ychwanegol.

Maes arall lle bu llawer o drafodaeth oedd polisi tocynnu ar gyfer plant. Rhaid i blant o dan oedran penodol fod yng nghwmni oedolyn i fynychu perfformiadau mewn theatrau a chanolfannau celfyddydau heb sôn am faterion sy'n ymwneud â mynediad er y gall hyn amrywio rhwng theatrau gan ddibynnu ar eu polisi. Canolbwynt y cynllun hwn yw creu cysondeb a mynediad hawdd i bawb sydd angen cymorth ychwanegol i fynychu'r theatr. Am y rheswm hwnnw, bydd unrhyw un, beth bynnag yw'i oedran, yn gymwys i'r cynllun, er bydd yn rhaid i bobl ifainc o dan 16 oed gael llofnod rhiant neu warcheidwad i awdurdodi eu cais.

Yn olaf, buom yn trafod sefyllfaoedd untro lle gall cwsmeriaid gyrraedd ar y noson ar gyfer perfformiad heb archebu tocyn ymlaen llaw. Ni fydd llawer o gynlluniau sydd eisoes ar gael yn caniatáu i gwsmeriaid fanteisio ar eu consesiwn oni bai eu bod wedi cwblhau'r broses gwneud cais. Un o brif werthoedd ein cynllun, fodd bynnag, yw cynwysoldeb ac rydym am annog pobl i fynychu perfformiadau'n hytrach na'u troi i ffwrdd oherwydd nad oes cerdyn ganddynt.

Am y rheswm hwn, rydym wedi adnabod ffordd y gall canolfannau gynnig consesiwn untro i gwsmeriaid sydd heb archebu tocyn ymlaen llaw. Mae hyn ar gyfer unigolion sy'n credu eu bod yn gymwys ar gyfer y cynllun ac felly bod angen cymorth arnynt i barhau â'u hymweliad ond nad ydynt eto'n aelodau o'r cynllun. Yn y senario hon, byddai'n rhaid i gwsmeriaid gofrestru eu henw a'u cyfeiriad gyda staff y ganolfan a byddai'r ganolfan yn rhoi'r manylion angenrheidiol iddynt i wneud cais am un o'r cardiau consesiynau gan eu galluogi i dderbyn eu gostyngiad ar unrhyw ymweliad ar ôl hynny.

Y Broses Gyflafareddu

Cyflafareddu sydd wrth graidd y cynllun cerdyn. Gwneir pob penderfyniad ar sail ei rinweddau ei hun gan adlewyrchu anghenion unigol y noddwr.

- Gellir defnyddio cyflafareddu i helpu'r rheini sydd angen cymorth sy'n fwy nag 1:1.
- Fel cyflafareddwyr rhanbarthol annibynnol, bydd sefydliadau'n dod â gwybodaeth leol i'r cynllun ac yn gallu gwneud eu penderfyniadau gan roi ystyriaeth i faterion hygrychedd sy'n effeithio ar eu haelodau a defnyddwyr eu gwasanaethau.
- Bydd cymryd rhan yn y cynllun yn hysbysu pobl yn well am gelfyddydau a diwylliant lleol a hygrych.
- Mae adnoddau wedi'u neilltuo i ddarparu hyfforddiant am ddim ar y safle a chymorth parhaus i'r sefydliadau sy'n ymgofrestru i weithredu fel cyflafareddwyr rhanbarthol.

Yn y cynllun y mae Diverse Cymru wedi bod yn ei redeg yng Nghaerdydd, aeth pobl yr oedd eu cymhwysedd yn syrthio y tu allan i'r meini prawf penodedig drwy'r broses gyflafareddu. Mae cyflafareddu hefyd yn gweithredu fel system apelio fel y bydd unrhyw un sy'n teimlo y dylai fod yn gymwys ar gyfer tocyn am ddim ond sydd wedi derbyn penderfyniad negyddol oherwydd nad yw wedi cyrraedd y meini prawf yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw drwy'r broses gyflafareddu. Bydd y broses hon hefyd yn berthnasol i Hynt, ond er mwyn sicrhau bod angen cyflafareddu mor anaml ag sy'n bosibl, byddwn hefyd yn cynnwys system atgyfeirio'n rhan o'r broses gwneud cais.

I'r rhai y mae eu namau'n syrthio y tu allan i'r meini prawf cymhwysedd gwreiddiol, er enghraifft y rheini sydd ag anawsterau dysgu neu broblem iechyd meddwl, gall ceisiadau gael eu cefnogi gan atgyfeiriadau gan sefydliadau ambarél fel Mind Cymru, Cartrefi Cymru neu'r Gymdeithas Alzheimer's. Byddwn hefyd yn derbyn atgyfeiriadau gan y theatrau a'r canolfannau celfyddydau eu hunain lle bo profiad ganddynt o gyflwr un o'u cwsmeriaid presennol a gwybodaeth amdano.

Mae'r system atgyfeirio hon hefyd yn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â baich y profi sydd ei angen ar gyfer y rheini nad yw eu cymhwysedd yn cael ei bennu drwy'r meini prawf penodedig, gan adael i sefydliadau dethol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol

weithredu fel canolwyr ac i'w cwsmeriaid wneud ceisiadau am y cardiau heb fod angen mynd at y cyflafareddwyr.

Gwyddom fod bod â meini prawf cymhwysedd yn awtomatig yn peri i unrhyw gynllun deimlo'n gyfyngedig yn hytrach nag yn gynhwysol. Rydym am wneud yn siŵr ein bod yn darparu ffyrdd clir a hawdd i bobl gael gwybod am y cynllun. Byddwn yn sicrhau bod ein marchnata'n hygyrch ac yn cyfleu'n glir yr ystod eang o bobl a fydd yn gymwys ar gyfer y cynllun, gan wneud yn siŵr bod y meini prawf cymhwysedd, y llwybrau gwneud cais eraill a'r dewisiadau cyflafareddu'n hysbys i annog cynifer ag sy'n bosibl i ddefnyddio'r cardiau.

Drwy gydol cyfnod ein digwyddiadau ymgysylltu, cafwyd cryn dipyn o lwyddiant o ran adnabod sefydliadau yr oedd gan eu cynrychiolwyr ddiddordeb mewn cynnwys rôl cyflafareddwr cynllun Hynt yn eu portffolios proffesiynol. Er ynghynt i ni ragweld mai person unigol ar gyfer pob canolbwynt rhanbarthol fyddai'n gwneud y gwaith cyflafareddu, mae'r ymatebion yr ydym wedi'u derbyn yn golygu ein bod wedi adolygu ein cynlluniau i gynnwys rhwydwaith ehangach o gyflafareddwyr a fydd yn gadael i ni ddefnyddio ystod ehangach o wybodaeth a phrofiadau arbenigol a chreu grŵp mwy o gyflafareddwyr yn y rhanbarthau hynny sy'n debycach o dderbyn mwy o geisiadau am gyflafareddu.

Er mwyn sicrhau bod yna adrodd cynhwysfawr drwy gydol y broses gyflafareddu, bydd yn cael ei gweinyddu drwy ohebiaeth, drwy e-byst gan mwyaf, er efallai y bydd rhyw faint yn cael eu trafod drwy'r post, gan nad oes ffordd gost-effeithiol ar hyn o bryd i wneud yn siŵr bod gan yr holl gyflafareddwyr y cyfleusterau i gofnodi galwadau ffôn. Er efallai nad yw hyn yn ddelfrydol o ran ei hygyrchedd, bydd yn amddiffyn cyflafareddwyr a'r cwsmeriaid hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae Diverse Cymru wedi creu fframwaith o safon y bydd cyflafareddwyr rhanbarthol annibynnol yn cael eu hyfforddi i'w ddefnyddio ac yn gallu cyfeirio ato yn eu gwaith; mae hwn wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Bydd y fframwaith hefyd yn gadael i Diverse Cymru fonitro gwaith y cyflafareddwyr wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen i sicrhau cysondeb gwneud penderfyniadau a phrofiad y cwsmer.

Bydd yr hyfforddiant hefyd yn cwmpasu'r holl broses gyflafareddu ac yn cynnwys deunydd ategol ynghylch yr amddiffyniadau cyfreithiol, materion treuliau a chyllid ynghyd â'r sgiliau trosglwyddadwy y bydd gweithredu fel cyflafareddwr yn eu cwmpasu.

Symud Ymlaen

Ystyriaeth allweddol i bob rhanddeiliad yw cynaliadwyedd y cynllun yn y dyfodol. Ni ddylai Hynt fod yn ddibynnol ar gyllid grant ar gyfer ei hyfywedd yn y dyfodol a hefyd nid ydym o'r farn ei bod yn deg nac yn briodol i ofyn i gwsmeriaid dalu am y cardiau fel ym mholisi cerdyn y CEA. Am y rheswm hwn, mae Hynt yn ddibynnol ar gyfraniad ariannol yn cael ei wneud gan y theatrau a'r canolfannau celfyddydau. O dan y gyllideb arfaethedig ar gyfer y cynllun, byddai'r canolfannau cyfranogol yn prynu i mewn i'r cynllun ar raddfa symudol yn seiliedig ar eu trosiant, sef trosiant y theatr neu'r ganolfan gelfyddydau'n unig lle maent yn rhan o sefydliad neu gorff sefydliadol mwy o faint, ar y cyfraddau canlynol:

Hyd at £500,000: £250 y flwyddyn.

○ £500,000.01 hyd at £800,000: £500 y flwyddyn.

○ £800,000.01 hyd at £2,000,000: £1000 y flwyddyn.

○ £2,000,000.01 hyd at £5,000,000: £2000 y flwyddyn.

Cyn ac yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu, trafodwyd ac ystyriwyd metrigau eraill megis nifer y seddau, trosiant y swyddfa docynnau a lefelau'r cymorthdaliadau a dderbyniwyd gan gynghorau, yn ogystal â'r cwestiwn a fyddai'r cyfraddau'n wahanol ar gyfer grwpiau sy'n gweithredu sawl canolfan neu ar gyfer canolfannau a weinyddir yn llwyr gan awdurdodau lleol.

Ar hyn o bryd, rydym yn credu y gofynnir i unrhyw safle sydd am ymuno â'r cynllun dalu'n unigol. Codir tâl fesul safle ar bob theatr a chanolfan gelfyddydau sy'n rhannu gwasanaethau neu reolwyr gan y bydd pob safle'n elwa'n annibynnol ar hyfforddiant a datblygu a hefyd ar ganllawiau mynediad a rhestrau mynediad unigol a gwaith datblygu cynulleidfaoedd.

Ystyriaeth allweddol arall i rai canolfannau oedd y cynnig i ddefnyddio eu trosiant yr oeddent yn teimlo y gallai gael ei sgiwio drwy bresenoldeb bwyty, caffi neu far fel y meinod ar gyfer lefelau prisio. Fodd bynnag, rydym yn teimlo'n gyffredinol mai cynnwys unrhyw arian sy'n rhan o enillion net y sefydliad yw'r ffordd decaf o wahaniaethu rhwng y canolfannau. Ar ben hynny, rydym o'r farn ei bod yn werth ystyried mai cwsmeriaid posibl i unrhyw fannau gwerthu ac arlwyo yw cwsmeriaid sy'n ymuno â'r cynllun hwn ac nid i'r gofodau perfformio'n unig.

Fel rhan o reoli'r prosiect hwn yn y dyfodol rydym hefyd am sicrhau bod hygrychedd a chynwysoldeb ar yr agenda'n barhaol ar gyfer pob theatr a chanolfan gelfyddydau yng Nghymru. Mae Creu Cymru eisoes yn rheoli nifer o gonsortia sydd wedi'u neilltuo i ddatblygu ffurfiau penodol ar gelfyddyd: Drama, Dawns a Cherddoriaeth. Mae'r rhain yn cwrdd yn rheolaidd gyda llawer o bobl yn eu mynychu; maent yn cynllunio prosiectau newydd ar y cyd, yn rhannu gwybodaeth ac yn ysgogi trafodaeth feirniadol. Byddwn yn sefydlu consortiwm mynediad newydd i arwain yn y maes hwn a pharhau i ddatblygu gwaith y cynllun, er enghraifft arwain ar adnoddau a rennir ar

gyfer perfformiadau hygyrch y bydd ail don yr hyfforddiant a gynigir gan y cynllun yn canolbwyntio arnynt.

Cysylltu â ni

Er mwyn ymgysylltu â chynifer o randdeiliad posibl y cynllun, bydd y fersiwn hon o'r adroddiad ar gael ar-lein o 9 Medi 2104 tan 8 Hydref 2014 a byddem wrth ein boddau clywed gan unrhyw un sydd am gyfrannu at fynd â'r cynllun rhagddo.

Am fwy o wybodaeth neu i anfon adborth i'w ymgorffori yn fersiwn derfynol yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni ar unrhyw un o'r cyfeiriadau e-bost isod.

Creu Cymru

Emma Evans

emma@creucymru.com

Megan Merrett

megan@creucymru.com

Diverse Cymru

Annie Duddridge

annie@diversesecymru.org.uk

Thom Dicomidis

thom.dicomidis@diversesecymru.org.uk

Atodiad 1 – Fframwaith Cyflafareddu

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys copi o'r fframwaith cyflafareddu arfaethedig ynghyd ag enghraifft o ddogfen gyfathrebu y byddai cwsmer yn ei derbyn gan gyflafareddwr.

Enghraifft o Ddogfen Gyfathrebu

Annwyl

Mae'r amgylchiadau a ddisgrifir gennych yn fy arwain i argymhell bod **enw** yn gymwys i Hynt ac felly bod hawl ganddo/i i docyn am ddim i'w g/chynorthwy-ydd personol neu ofalwr.

Sail resymegol Cynllun Hynt:

Cynllun dan arweiniad cymheiriaid yw Hynt; bu cryn dipyn o drafodaeth ac ymgysylltu â phobl anabl a sefydliadau cynrychioladol wrth ddatblygu'r cynllun.

Cytunwyd nad yw'r profiad na'r arbenigedd gan reolwyr canolfannau unigol i asesu anghenion cwsmeriaid anabl. Roedd angen cydnabyddedig am gonsesiwn credadwy, cyson, tryloyw a theg i ofalwyr ar draws rhwydwaith y theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru.

Drwy ymgysylltu'n helaeth ledled Cymru, buom yn gwrandao ar farn pobl anabl i adnabod meini prawf cymhwysedd priodol a theg ar gyfer Hynt. Canlyniad yr ymchwil a'r ymgysylltu hyn oedd meincnod angen wedi'i asesu, gan ddefnyddio prosesau oedd eisoes yn bodoli lle mae person anabl wedi cael ei asesu gan asiantaethau megis yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a/neu Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn sail i Hynt. Yr anghenion asesedig y cytunwyd arnynt yw:

- Elfen Bywyd Beunyddiol Fwy o'r Taliad Annibyniaeth Personol
- Elfen Ofal Cyfradd Uchaf o'r Lwfans Byw i'r Anabl
- Cyfradd Uchaf y Lwfans Gweini
- Tystysgrif o Nam ar y Golwg
- Pensiwn Anabledd Rhyfel
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Taliadau Uniongyrchol

- Pecyn Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae proses gyflafareddu Hynt yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau y tu allan i'r meini prawf cymhwysedd rhagnodedig gan ddefnyddio gwybodaeth arbenigol a phrofiad cyflafareddwyr i ystyried ceisiadau fesul achos unigol. Rydym yn ystyried amgylchiadau nad ydynt efallai'n bresennol nac yn cael eu cynrychioli yn y meini prawf cymhwysedd sydd eisoes yn bodoli.

Mae penderfyniad y cyflafareddwr wedi'i seilio ar fframwaith clir ac mae ein holl systemau a phrosesau cyflafareddu'n cael eu monitro gan Diverse Cymru.

Ar ôl hyn, bydd eich cais yn cael ei brosesu ar sail ein hargymhelliad a byddwch yn derbyn eich cerdyn o fewn 7 diwrnod.

Cofion gorau

Fframwaith Cyflafareddu

Cais a gefnogir gan ganolfan

Enw'r cwsmer	
Enw'r ganolfan	
Enw'r noddwr	
Teitl y swydd	
Rheswm am wneud cais/tystiolaeth ategol	

Anghenion cymorth gofal

Enw'r cwsmer		oes	nac oes
Mae anableddau dysgu gan y cwsmer			
Mae dementia ar y cwsmer			
Mae nam iechyd meddwl ar y cwsmer			
Disgrifiad o anghenion cymorth gofal y cwsmer:			

Pellter gormodol

Enw'r cwsmer	
Disgrifiad o'r pellter gormodol i'r ganolfan dan sylw	

Cymorth gan ofalwyr 1: 2 / Cymorth gan ofalwyr 1:3

Enw'r cwsmer		
Cais 1:2		
Cais 1:3		
Tystiolaeth ategol		
Gwasanaethau Cymdeithasol	ie	na
Adran Gwaith a Phensiynau	ie	na
Gwasanaeth Iechyd	ie	na
Disgrifiad o'r cwsmer	ie	na

Fframwaith

	Ie	Na	Ddim yn berth-nasol	Sylwadau
Cais a gefnogir gan ganolfan/a noddir				
Mae'r e-bost cyntaf gan y cwsmer yn cynnwys disgrifiad digonol o'i anghenion cymorth gofal yn y ganolfan				
Mae gan y cwsmer anableddau dysgu sy'n golygu bod angen cymorth arno i gyrraedd canolfannau'n ddiogel				
Mae dementia ar y cwsmer				
Mae nam iechyd meddwl ar y cwsmer sy'n golygu bod angen cymorth arno i fynychu canolfannau'n hyderus				
Mae'r e-bost cyntaf gan y cwsmer yn cynnwys disgrifiad digonol o rwystrau o ran trafnidiaeth hygyrch				
Mae'r e-bost cyntaf gan y cwsmer yn cynnwys disgrifiad digonol o bellter gormodol i'r ganolfan dan sylw				
Darparwyd tystiolaeth gan y cwsmer ynglŷn â'i angen am gymorth				

gofalwyr 1: 2				
Darparwyd tystiolaeth gan y cwsmer ynglŷn â'i angen am gymorth gofalwyr 1: 3				